

Bronwen y dŵr,
Gerddi Bodnant,
2 Mawrth 2017
Alun Williams

Threskiornis molucca Ibis Awstralia



Yn ol un o drigolion Sydney, doedd na ddim o'r rhain i'w gweld yn yr ardal tan tua 20 mlynedd yn ôl, yn dilyn sychder. Maent yn bla yn yr ardal erbyn hyn.

Gwyn Williams

Gwiberod cynnar Mynydd Hiraethog



Mi es gyda'r ci am dro i Fynydd Hiraethog bore ma [20 Chwefror 2017] a digwydd taro draw i edrych os oedd y gwiberod allan; er syndod i mi gwelais 3 ohonynt. Mae'r dyddiad yma 12 diwrnod yn gynharach na 2015. Erioed wedi eu gweld yn torheulo mor gynnar yn y flwyddyn. 12 diwrnod yn gynharach na llun a dynnais ar Fawrth 4ydd 2015.

Alun Williams

Cafwyd 5 cofnod "cyntaf" gwiber ers 1990, a chyfartaledd eu dyddiad yw 4 Mawrth (cynharaf 20 Chwefror (AW)). Cafwyd hefyd y ddau gofnod hanesyddol yma:


6 Mawrth 1763, Llanfihangel-ar-Elai, Morgannwg.: *Fair and fine weather as Summer adders beginning to appear wind N. East*

William Thomas (dyddiadur)

31 Mawrth 1903, Cenarth: *An adder about two feet long was caught on Tuesday [31 Mawrth] week at Cenarth Vicarage by Daniel Williams. This is the first seen this season. No doubt, the severe weather has prevented their appearance before this.*

Weekly Mail 11 April 1903

Sgrech y barcud



Mi fum yn Gigryn ger Rhaeadr, Powys i dynnu lluniau y Barcud Coch [chwith], er mwyn eu gweld yn bwyta gan hedfan i lawr a bachu'r cig yn ei grafangau ac yn bwyta wrth hedfan. Y diwrnod pan oeddwn yno roedd 'na tua pum cant yn hedfan lawr i gael y bwyd. Dywedodd perchennog fferm Gigryn wrthym ei bod yn dwad i gael

y bwyd am ddau o'r gloch y p'nawn yn ystod y gaeaf. Ond ar ôl troi y cloc yn y gwanwyn, byddant yn ymweld am dri o'r gloch. Ni welais yr un ohonynt yn cario wats!! Dywedodd y perchennog bod y cig o'r un safon y byddwn ni yn ei fwyta.

Sion Jones

Ysgrifennodd un o foneddigesau Llangollen yn ei dyddiadur 13 Mai 1788 "*The boughs rustling with the wind, rooks cawing, kites screaming...*". Mae rhai yn amau mai **bwncathod** ac nid barcutiaid oedd hen gofnodion o'r fath. Cliciwch ar unrhyw recordiad ar y **ddolen hon** sy'n cyfeirio at *call* yn y 9fed colofn i glywed sgrech y barcud. Sw'n digon dof a digyffro yw galwad y bwncath o'i gymharu â hwn.

Croeso i flodau'r gwynt



Blodyn y gwynt, Coed Sied, Groes, Mawrth 14.

Alun Williams

Un cofnod arall sydd yn y Tywyddiadur am hwn yn hanner cyntaf Mawrth, sef 16 Mawrth 1988: Bompren Gwredog, Waunfawr

DB

Y dinwen wedi cyrraedd



Gweld Tinwen y graig cynta'r tymor pnawn 'ma [chwith, Aberffraw 13 Mawrth]. Cynhara i mi weld dw i'n meddwl.

Wil Williams

Iaith chwibannu Canaria

Gwrandewch ar **hwn** i glywed iaith unigryw:

Y wylan benddu a'i smotyn



Gwylan benddu (chwith),
Gwarchodfa Natur Pwll
Brickfield, Y Rhyl, Chwefror
7, 2017. Eifion Griffiths

O'r chwith i'r dde isod:

8 Rhagfyr 2010 Aberogwen
(Dewi Edwards)


14 Chwefror 2013 Caeau
Bodafon, Llandudno,
(Gareth Pritchard)

26 Ebrill 2011 (Alun Williams)

17 Mawrth 17, 2010 Traeth
Llanddulas (Eifion Griffiths)



Roedd y dyddiadurwr Harry Thomas, Llandudno, yn cymryd diddordeb mawr yn y newidiadau tymhorol o'i gwmpas Dyma ddarlun a wnaeth ar dudalen 11 Chwefror 1915 o benwisgoedd tymhorol y wylan benddu. Nododd Harry fel hyn ar y 15 Ionawr 1915: *Returning from Queens hotel at noon see 3 blackhead gulls already assuming their black faces...*



Yr eog a gâr yr afon

Dyma gofnod o Ddyddiadur Hela CEM Edwards,
Dolserau, Dolgellau, dyddiedig 7 Hydref 1880:

7 Hydref 1880: ... *I did not rise a fish till I got to the Minor's pool (2nd below Falls) [sic. NID Miners'] at the tail end of which I stuck in a nice fish on double hooked Durham Ranger. Had not much difficulty in gaffing him, as soon as I saw I could keep him in the pool. He weighed close on 11lbs, a cock fish, very long and had been some time in the river. I rose another fish in the Gold Mine pool, but he would not come a second time...*

Sut oedd Edwards yn gwybod bod yr eog wedi bod yn hir yn yr afon? Dyma'r pysgotwr Rhys Llywelyn:

Mae eog sy'n ffres o'r môr â lliw arian disglair a mae ei gnawd yn galed, gall hefyd fod heb ddatblygu gên bachog fel mae'r pysgodyn gwryw yn datblygu'n arferol. Gydag amser yn yr afon mae'n colli'r lliw disglair hwnnw a bydd yn troi mwy tywyll, bydd fwy brown a choch gydag amser a bydd ei gnawd yn fwy meddal, gan nad yw yn bwyta a mae'n defnyddio ei storffeydd o frasder (sy'n gorwedd dan y croen) i deithio yn erbyn y llif ac i greu hâd i genhedlu. Os yw wedi bod yn yr afon ers amser hir gall fod bron yn ddu a digon diflas i'w fwyta. Yn ôl y son dyma pam oedd gweision fferm yn gwrthod samwn i swper fwy na 6 gwaith yr wythnos pan yn derbyn eu bwyd fel rhan o'r tâl am weithio. Rhys Llywelyn

Cofiwch Gweithdy WiciNatur 6 Mai,
Plas Tan y Bwlch
Gwledd o ddysgu - môr o hwyl!

Eirlys, Lloyd George a Rhyfel y Crimea



Eirlys ger yr Afon Ddwyfach, Llanystumdwy, ugain munud o fedd Lloyd George, 19 Chwefror 2017.

Gerallt Pennant

Dyma flog gan "incrediblehulk" yn y Guardian yn ddiweddar:

"I've noted that there are many more snowdrops around now, compared to when I was a child. Welsh children were taught that soldiers brought them back from the Crimea. Seems fair enough as they are found near human habitations or along the banks of streams, Welsh folk used to chuck their garden rubbish into rivers and streams in the old days".

Gall unrhyw un gadarnhau'r stori hon?

Llais Anti Nel Niwbwrch - cwningod a moresg

Llais Anti Nel - Ellen Rebecca Hughes, Rhedyn Coch - sef wyres Thomas Jones [Cwnhingar] a'i wraig Cathrine Jones (Cadi Penras - Penras Terrace yn Penlon, Niwbwrch). Recordiwyd y darn hwn ym mharlwr Rhedyn Coch oddeutu 1980. Roedd ganddi 3 o blant ac wedi iddi briodi gyda Robert Hughes, oedd yn bostmon, aeth i fyw i'r lard (enw pobol Niwbwrch ar Malltraeth) i gadw siop o'r enw Siop Newydd. Dychwelodd i Rhedyn Coch i ymddeol, roedd yn eglwyswraig ac ei phrif hobi oedd crostio (crochet).

Diolch i Einir Thomas

Mi fydd mwy o straeon gan Anti Nel ar wefan Llên Natur (adran Llais) gyda hyn.

Y Frenigen eto



Yn y rhifyn diwethaf cyflwynwyd i chi'r milwr o fardd Kalloc'h a'i gerdd am y llygad myharen (brenigen). Dyma Dominig Kervegan (chwith) yn darllen y gerdd *Er Verniken* yn nhafodiaeth y Wenedeg (Llydaweg).

<https://soundcloud.com/llen-natur/er-vernikenn>

Geiriau am EIRA



Mae siarad am y tywydd yn ail natur i ni, ac yn fodd i gynnal sgwrs pan nad oes llawer arall i'w ddweud. A phetai'n bwrw eira, mae hynny'n destun siarad gan bawb!

Ond faint o eiriau sydd i ddisgrifio eira yn benodol? Mae yna ystôr ohonynt yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, a rhai ohonynt yn hen iawn. Er enghraifft sonnir am **friwod**, sef eira mân a yrrir gan y gwynt, a **chynneiry**, sef eira cyntaf, tua'r flwyddyn 1400 yn Llyfr Coch Hergest. Mae'r bardd lolo Goch yn cyfeirio at **liw nyf**, sef lliw eira, yn y 14eg. ganrif, a Dafydd ap Gwilym yn son am **ôd** (eira),

gair sydd ar lafar o hyd mewn rhai ardaloedd yn y ferf odi (bwrw eira) .

Ar ddiwrnod **eiriog** (llawn o eira), efallai mai **flluwch** (haen denau), **ffrechen** (cawod ysgafn), neu **sgimpen** (haen denau) a gwymp, neu daw eirwynt a **lluwch** neu **luchfa** o **fanod** (man ôd, eira mân) i'n cadw i



ffwrdd o'r lonydd ac o'r gwaith. Ac wrth gwrs mewn ychydig o ddiwrnodau, bydd y **gwynneiry** (eira gwyn) neu'r **hiffiant** (eira wedi ei yrru gan y gwynt) wedi troi yn **isgell** neu **botes eira** (eira tawdd) hyll a budr.

A wyddoch chi am unrhyw hen eiriau lleol neu anghyffredin i ddisgrifio'r eira (neu unrhyw dywydd arall)? Chwiliwch

amdanynt yn GPC ar lein (ac am ddim), <http://gpc.cymru>. Ac os nad ydynt yno, byddwch mor garedig chysylltu a ni ar gpc@geiriadur.ac.uk neu Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthoch!

Geiriadur Prifysgol Cymru

Y lluniau (clocwedd o'r brig): **bronfraith yn swatio** (KO'B) Lluwch Hiffiant? Roedd **yr A543 rhwng Bylchau a Phentrefoelas** wedi cau heddiw, Mawrth 25 oherwydd yr eira yn chwythu o'r caeau (PW). **Patrymau mewn lluwchfeydd** eira ger Moel Fodiar, Mawrth 26 (AW)

Doris y Gwynt!



Llun a chapsiwn Keith O'Brien

Tynnodd Keith y llun hwn yn anterth Storm Doris yn ddiweddar. Mae'r rhubanau o **laswellt y gweunydd** (yr unig laswellt collddail ym Mhrydain gyda llaw) yn chwythu i bob man yn rhywbeth cyfarwydd ar ddyddau gwyntog yn yr ucheldir:

22 Chwefror 1908; Pen y Gwryd:...1.15pm. *violent hurricane from Gwynant & a flash of lightning. This lasted about [?] hr. Air full of dry heather, grasses etc, and water from the streams.... Blew tree down at P. y. G. [Pen y Gwryd]* Llyfrau Nodiadau Arthur Lockwood XM11621

Stryd-gwmwl??




Cwmwl dros Arfon 29 Gorffennaf 2015 Duncan Brown

Meddai dyn tywydd Llen Natur (HHJ):
*Your cloud is **Cumulus mediocris**. These are cumulus clouds arranged by the wind into parallel lines known as 'cloud streets'*


Cofiwch glicio'r geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth

Dyfodiad y gwanwyn hyd yma (Waunfawr)

Dyma grynodeb diweddaraf y gwanwyn gan HHJ (ein Dyn Tywydd). Mae'r graff t-sum cyntaf yn dangos gwanwyn eleni (coch) hyd ddiwedd Chwefror o'i gymharu a'r llynedd (melyn). Mae'r gwanwyn hwyraf (pinc 2013) a'r cynharaf (glas 2007) wedi ei seilio ar y cyfnod cyfan (Ionawr > Mai).



Mae'r ail graff (isod) yn gwneud cymhariaeth tebyg ond yn mesur yr hwyraf a'r cynharaf ar ddata Ionawr-Chwefror yn unig. Sylwch bod tywydd mawr ddechrau 2010 (pinc) yn dangos ei effaith.




Ar ôl dilyn y patrwm cyfartalog gydol Ionawr cododd gwerth y t-sum uwchlaw'r cyfartaledd yn y mis bach.

Dyma'r diweddar Brian Jones, Llangamarch, yn cofnodi gwanwyn oer 2013 (saeth pinc, llinell pinc, graff uchaf): Gallt-yr-Huan, 10 Mai 2013 SN910440 Dyma ni nol yn y tywydd gwyntog, gwlyb, a thymheredd isel unwaith eto. Mae blychod Bronwen y Dŵr gyda wyau yn awr tua mis ar ôl. Yna allan o dros gant o flychod erill dim ond tri sydd a wyau ynddynt ac nid ydi'r nyth wedi eu gorffen yn y mwyafrif o'r lleill.

Ffenoleg (sylwadau) bronwen y dŵr

Mae yna 41 o gofnodion bronwen y dŵr neu dipper (gweler llun y clawr) yng nghronfeydd Llên Natur. Maen nhw'n rhychwantu cyfnod rhwng 1911 a 2015 ac yn disgyn yn fras i dri chategori, 1) gweld yn unig (20, glas isod), a 2) adeiladu nyth, dodwy a magu (9, coch); 3) cofnodion/lluniau yn yr Oriol yw'r gweddill (12, oren).



Llun: Bronwen, Afon Ffyddion, Diserth, Tachwedd 13, 2015. Eifion Griffiths

Nid yw'r bronwen ddŵr yn ymfudo ymhell o'i milltir sgwar ond er hynny mae'r patrwm sylwadau ohoni yng nghronfeydd Llên Natur yn dymhorol iawn (graff uchod). Beth sydd i gyfri am hyn felly? Dyma ychydig bosibiliadau:

- wrth ddechrau nythu'n gynnar (mis Chwefror) mae'r pâr yn fwy amlwg wrth iddyn nhw darannu i fyny ac i lawr yr afon yn hawlio eu triogaeth a bobian yn bowld ar y creigiau;
- Ym mis Ionawr, cyn dechrau nythu maen nhw ar eu mwyaf amlwg a swnllyd. Mae'r cofnod "nythu" ym mis Chwefror yn cyfeirio at gasglu deunydd nyth. Prysurddeb magu sydd i gyfri mae'n siwr am y penllanw o gwmpas Ebrill;
- rhwng Awst a Hydref, a'r boblogaeth ar ei mwyaf gyda'r cywion 'dros y nyth', maent eto yn swil iawn. Tybed ydyn nhw'n crwydro fwy yn y cyfnod hwn a chywion y flwyddyn yn gwasgaru neu'n marw. Yn arwyddocaol efallai, mae dau gofnod Tach-Rhag am adar ar lannau Llyn Idwal, lle nad oes nythfa amlwg.



ch) aderyn ieuanc yw'r unig gofnod ym mis Awst (chwith Alun Williams)

Dyma ddywed Birds of the Western Palearctic: *Most populations resident but undertake local post breeding dispersal movements often involving altitudinal change..... Almost all recovers less than 50 km from ringing site, though 160 km recorded... British and Irish populations sedentary apart from local post breeding dispersal, affecting juveniles more than adults and males more than females. In winter in Wales and elsewhere, mountain streams regularly vacated in favour of lower reaches; some birds cross watersheds and in severe weather move to coasts and estuaries.... Some winter immigration to Britain from Europe...*

Rhyfeddodau Mecsico



Bum ar fordaith ym Mecsico (Baja California) yn ddiweddar ac er fy mod yn disgwyl gweld y **pelican** a hynny yn harbwr Loreto, doeddwn i ddim yn disgwyl gweld yr aderyn yn yr ail lun sef Gwalch y Pysgod (ym mhorthladd Topolobampo y tro hwn) - roedd yr harbwr mor brysur gyda gwaith

sment gerllaw, cannoedd o fobl yn pasio heibio, a dawnswyr a chanwyr yn perfformio ar lwyfan odditanynt! Ond yma ar bolyn llif-oleuadau mawr oedd y nyth tua 20 metr uwchben y cei a'r iar a'r ceiliog yn hedfan o gwmpas yn braf, ac yn bwydo'r cyw o dro i dro. Yna, Americanes yn dod ataf wrth i mi dynnu lluniau a dweud mewn drawl Texan agored -'you like the Peregrine huh?' (!!)

Ken Robinson



Yr ysfa fawr



Gwarchodfa Natur RSPB Burton, Mawrth 13. Alun Williams



Torri eu pleser yn ei flas

Dyluniais y **llun** â phensil (chwith) - ychydig yn facabr dwi'n cyfaddef - ar fympwy wrth weld dau lyffant wedi eu gwasgu ar y lon. Roedd ganddynt ystum drawiadol roeddwn i'n meddwl.

Duncan Brown

Canlyniadau gaeaf GMS Cymru

Dyma brif galyniadau prosiect cyfri gwyfynod cyfnod y gaeaf o dan **gynllun GMS**-Cymru.

1	gwyfyn gaeaf	355	25.43
2	gwyfyn Rhagfyr	143	10.21
3	dad-ddeiliwr	101	7.21
4	carpiog pluog	39	2.79
5=	rhisglyn brith gwelw	21	1.50
5=	gwyfyn gwinau cyffredin	21	1.50
7	brychan Tachwedd (cyf.)	19	1.36
8	rhisglyn y gwanwyn	14	1.00
9=	tortrics afalau brown golau	13	0.93
9=	brychan cochwyrdd	13	0.93

Ystyr y colofnau: rheng/rhywogaeth/cyfanswm a ddaliwyd/cyfartaledd per gardd

Y gwyfyn gaeaf yw'r pryf y gwelwch yn ngoleuadau'r car gefn gaeaf yn hedfan o dan goed. Y gwrywod yw rhain - nid yw'r benywod yn gallu hedfan.

Y titw mawr, ei enw a'i nodyn



Eifion Griffiths

Titw Mawr, titw mwyaf, penloyn mawr, penloyw, yswidw (amr.: swidw, sywidw, yswigw, swigw, sywigw), pela mawr, hogwr, llifiwr, lleian, cap y lleian. Rhagor o Enwau Adar by Dewi E Lewis (Gwasg Carreg Gwalch)

Mae enw arall wedi ei nodi yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru o 1761, sef **gwrach y cae**. Mae llawer o'r cyfeiriadau at **yswidw** a'u tebyg yn nodi'r titw fel 'gwas y dryw'.

Cyfeiriadau at y **gân ti-tw** fel swm llifio yw **hogwr** a **llifiwr** (neu fel y dywedodd rhywun, swm fel meddwyn yn gwthio berfa rhydlyd!). Cynnig arall yw mai dynwarediad o'r gân **ti-tw** yw'r enw. Ond cofier dylanwad cryf yr iaith Saesneg **tit**(mouse). Gyda llaw **meise** yw'r gair Almaeneg sy'n cyfateb mae'n debyg i - **mouse** yn y Saesneg, ond yn golygu **bach**.

Slafan Emrys



Sylwais ar hwn yn y cowt tu cefn i'r ty. Be mae'r gwybodysion yn feddwl sy'n byw yn y pot? Dwi ddim yn mynd rhyw agos rhag ofn ei fod ishio cinio!


Emrys Llewelyn

Hynt yr helfa grugieir

Mae dyddiadur hela Munro Edwards, Dolserau, Dolgellau yn nodedig am y gyflafan mae un heliwr yn gallu ei achosi trwy saethu'n ddi-baid ar y mynyddoedd o gwmpas ei gartref. Cymaint oedd y gyfalafan hon, dydd ar ôl dydd am chwe mis o'r flwyddyn fel arfer, mae'r cwestiwn yn codi, be goblyn oedd o'n ei wneud efo'r holl gyrff (grugieir, petris, cyffyligion, ysgyfarnogod... ac yn y blaen heb son am yr eogiaid a'r sewin o'r afonydd). Does yr un cofnod yn son am beth wnaeth â'r cyrff ar ôl eu saethu - tan rwan!

Sunday 15th August 1880: A very hot day, wind easterly. I went and bathed this morning at the Big Pool. Heatley and I spent a quiet day, and during the afternoon went on Moel Offrwm to gather heather to pack the grouse in: we found it very hot work. I sent off 3 boxes of grouse this evening.

Yr helfa ar ôl y *Glorious Twelfth* oedd hwn mae'n debyg. Yr adeg honno wrth gwrs roedd tren o Ddolgellau yn cyrraedd Llundain yn weddol rhwydd. Roedd digon o gysylltiadau gan Edwards yn y fan honno ("in Town" ys dywedai!)



...a hynt y grug ar Foel Offrwm

Dydd Nadolig 1871:... *this afternoon I had a good walk through the deer Park to the top of Moel Offrwm, on which I saw 5 grouse and a hare, and then to Nannau lake.*

29 Medi 1872: *This afternoon about 3 o'clock I had a good scramble to the top of Moel Offrwm and found some mushrooms.*

Does dim golwg erbyn hyn o lawer o rug ar Foel Offrwm i gynnal grugieir. Ydi'r gorchudd o rug (saeth brown) wedi crebachu ers amser Edwards tybed, a llus (saeth gwyrdd) wedi cymryd ei le?

Brain yn darogan Chwyldro...?

...yn teu bwyta morgrug hedegog?

14 Gorffennaf 1789, Llangollen: *Sky white. Millions of Rooks on the mountains of Pengwern consulting I suppose about the weather. I wish I could communicate their observations, or that I could understand their language...* [ar y diwrnod y dechreuodd y Chwyldro Ffrengig].

A Year with the Ladies of Llangollen

Tri chynnig ar fynegi arswyd Macbeth

Gyda chynhyrchiad diweddaraf Macbeth wedi gweld golau dydd yn theatrau ar draws Cymru trwy lif-byw o Gastell Caerffili, dyma atgyfodi dehongliadau meistrolgar llinellau iasol Shakespeare:

*"Light thickens, and the crow
Makes wing to the rooky wood;
Good things of day begin to droop and drowse,
Whiles night's black agents to their preys do rouse."*

- William Shakespeare, *Macbeth*, 3.2

Dyma gyfieithiad JT Jones o'r frawddeg yn y fersiwn Gymraeg wreiddiol:

"Mae'r goleuni'n tewychu, a'r fran yn ehedeg tua choed y brain. Mae pethau da'r dydd yn dechrau gogwyddo a thrymhau a gweision duon y nos yn bywiogi am ysglyfaeth".


Ym Mwletin 29 cawsom gynnig gan Aled Jones:

'Mae'r dydd yn pylu, a'r fran
Yn hwylio tua choed y brain;
Gwiw bethau'r dydd yn llithro i gwsg,
A du ysbeilwyr nos yn ceisio'u prae.'

A'r mis hwn (Chwefror) cafodd cyfieithiad newydd o Macbeth ei berfformio gan y diweddar Gwyn Thomas. Dyma'r frawddeg yn y fersiwn honno:

Mae'r golau'n t'wchu, ac mae'r fran
Yn mynd ar ei hadenydd draw i goed y brain.
Mae pethau da y dydd yn dechrau gwywo
A throi'n swrth, a gweinidogion du
Y nos yn ymysgwyd am eu hysglyfaeth.

Caeau Tŷ Gwyn Waunfawr +50



Daeth y neges annisgwyl hon yn ddiweddar gan hen gyfaill Alan Hampson (gynt o'r Waun):

I'm sorting out a lot of my old colour slides and came across this [chwith uchod] one. The view from the back garden of Tremallt about 1968. Any chance of an update?

Dyma fynd ar sgowt gyda chamera i Dremallt a thynnu hwn (de uchod).

Newidiadau:


Mae Tŷ Gwyn yn cuddio y tu ol i'r mân goed
Diflannodd y defaid a thewychodd y borfa
Y goeden bin wedi mynd ac onnen a chelyn wedi cymryd ei lle



Llygad y Dydd

CYMDEITHAS
GWAITH MAES
arwain addysg yr amgylchedd yng Nghymru

Mae'r grid yn cynnwys enwau deg o adar mudol y Gwanwyn. Mae wyth wedi eu rhestru .
Er mwyn ennill £10 darganfyddwch enwau'r adar na chânt eu rhestru o'r cliwiau.
Anfonwch yr enwau i golygyddol@gwaithmaes.org erbyn y 15fed o Ebrill.



Mwyalchen y Mynydd

Gwennol y Bondo

Telor yr Helyg

Gwennol

Crec yr eithin

Llwydfron

Siffsaff

Cog

Pa adar sydd yma?

Gwydr beth wnaiff bigo

Mewn madfall